

Ymgynghrair gan

**thirtyone:
eight**



thirtyone:eight.org

**Sul
Diogelu**

Man diogel a goleuni

Trefn gwasanaeth ar gyfer plant ac oedolion

Addasiad o drefn gwasanaeth a ysgrifennwyd gan **Ruth Burgess**

a gymerwyd o "The Pattern of our Days" a olygwyd gan **Kathy Galloway**

Defnyddir trwy ganiatâd caredig **Wild Goose Publications**

www.ionabooks.com

thirtyoneeight.org/safeguardingsunday



Croeso

Arweinydd: *Croeso I'r iie hwn ar Sul Diogelu.*
Mae'n ddiwrnod i ddiolch am bawb sy'n gweithio dros ein lles ni oll,
diwrnod i gofio'n dyner pawb sydd wedi cael eu brifo neu eu niweidio
gan ein gweithredoedd neu'n hamharoddrwydd i weithredu,
diwrnod i edrych i'r dyfodol ac i ymrwymo ein hunain i chwarae ein rhan
ac i gadw'r lle hwn yn lle sy'n fwy diogel i bawb.

Gweddiwn:

Dduw, helpa ni i glywed dy lais
trwy ddwndwr prysurdeb y byd hwn
lle mae geiriau yn cael eu defnyddio i beri penbleth,
i denu sylw, i blygu ewyllys,
i werthu rhith, i gamddefnyddio;
Cynorthwya ni i ymlonyddu a bod yn agored i iachâd,
anogaeth, ysbrydoliaeth, cadernid,
dy Air bywiocaol.

Amen

Gwersiglau Agoriadol

Arweinydd: *Pan ydym yn hapus*
pan ydym yn llawn hwyl a sbri

Pawb: Mae Duw yn ein croesawu ni

Arweinydd: *Pan ydym yn grac*
pan mae pobl eraill yn ein siomi ac yn ein gwneud ni'n drist

Pawb: Mae Duw yn ein croesawu ni

Arweinydd: *Pan ydym wedi blino,*
pan fod angen seibiant arnom i ymlacio a gorffwyso

Pawbl: Mae Duw yn ein croesawu ni

Arweinydd: *Dduw croeso,*
y Duw sydd â'i ddrws yn agored bob amser

Pawb: Rydym yn falch o dy gyfarfod di yma.

Cân neu Emyn: (Gweler y rhestr o emynau addas)

Arweinydd: Dyma weddi arbennig ar gyfer Sul Diogelu

*Annwyl Dduw,
helpa ni i fod yn eglwys sy'n:
Caru, croesawu, amddiffyn.
Gwrando, dysgu, gweini.
Edifarhau, adfer, gweddnwidd.
Gwerthfawrogi, gofalu, credu.
Dduw Cyfiawnder a thosturi, gwrando ein gweddi.
Gweddiwn arnat ein helpu, ein hiachâ, ein harwain ni,
yn enw Iesu.
Amen.*

Darlleniad: Eiseia 41:10-13 (Beibl.net)

*"Paid bod ag ofn, achos dw i gyda ti.
Paid dychryn – fi ydy dy Dduw di!
Dw i'n dy nerthu di ac yn dy helpu di,
dw i'n dy gynnal di ac yn dy achub di hefo fy llaw dde.
Bydd pawb sy'n codi yn dy erbyn di
yn cael eu cywilyddio a'u drysu.
Bydd y rhai sy'n ymladd yn dy erbyn di
yn diflannu ac yn marw.
Byddi'n edrych am y rhai sy'n ymosod arnat ti
ac yn methu dod o hyd iddyn nhw.
Bydd y rhai sy'n rhyfela yn dy erbyn di
yn diflannu ac yn peidio â bod.
Fi, yr ARGLWYDD, ydy dy Dduw di,
yn rhoi cryfder i dy law dde di,
ac yn dweud wrthot ti: "Paid bod ag ofn.
Bydda i'n dy helpu di."*

Cân neu Emyn: (Gweler y rhestr o emynau addas)

Darlleniad: Marc 12:28-31 (Beibl.net)

Roedd un o'r arbenigwyr yn y Gyfraith yno'n gwrando arnyn nhw'n dadlau. Pan welodd fod Iesu wedi rhoi ateb da iddyn nhw, gofynnodd yntau gwestiwn iddo. "O'r holl orchmynion i gyd, pa un ydy'r pwysica?" gofynnodd. Atebodd Iesu, "Y gorchymyn pwysica ydy hwn: 'Gwrando Israel! Yr Arglwydd ein Duw ydy'r unig Arglwydd. Rwyt i garu'r Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' A'r ail ydy: 'Rwyt i garu dy gymydog fel rwyt ti'n dy garu dy hun.' Does dim un gorchymyn sy'n bwysicach na'r rhain."

Myfyrddod neu Anerchiad

Gweddi Atebol:

Arweinydd: *I fannau tywyll ein byd*
lle mae pobl yn ofni ac yn llwgu

Pawb: Dduw dyro oleuni, dyro gariad

Arweinydd: *I fannau lle mae pobl yn dreisgar*
i fannau lle mae pobl yn ymladd

Pawb: Dduw dyro oleuni, dyro gariad

Arweinydd: *I fannau lle yr ydym yn teimlo'n anniogel*
i sefyllfaoedd sy'n peri niwed i ni ac sy'n gwneud i ni deimlo'n ofnus

Pawb: Dduw dyro oleuni, dyro gariad

Arweinydd: *Cyflwynwn ein gweddiâu yn enw Iesu*
ac yn nerth yr Ysbryd Glân

Pawb: Amen

Gweddiâu: (Gweler yr Atodiad)

Cân neu Emyn: (Gweler y rhestr o emynau addas)

Cerdd / Neges o Obaith

Cân neu Emyn: (Gweler y rhestr o emynau addas)

Gwersiglau i Gloi:

Arweinydd: *Dduw, cadw ni'n ddiogel rhag peryglon*

Pawb: **Rho i ni wroldeb a chryfha ein gallu i garu**

Arweinydd: *Dduw, helpa ni i lefaru'r gwir*

Pawb: **I sefyll wrth ochr y rhai sydd angen ein cymorth**

Arweinydd: *Dduw, rho i ni ffrindiau sy'n ein caru*

Pawb: **Mannau a phobl sy'n ein helpu ni i ffynnu**

Arweinydd: *Dduw, anfon ni allan dan lawenhau*

Pawb: **A chroesawa ni adref yn ddiogel**

Y Fendith : Bendith o Iona

*Bydded i Dduw, sy'n bresennol
yn y wawr ac yn y machlud,
ac wrth groesi'r môr,
arwain ein traed wrth i chi deithio ymlaen.*

*Bydded i Dduw, sydd ynom wrth i ni eistedd
ac wrth i ni sefyll,
amgylchynu chi â'i gariad
a dal gafael yn eich llaw i'ch arwain.*

*Bydded i Dduw, sy'n gwybod eich llwybrau
a'r mannau yr ydych yn gorffwys ynddynt,
bod gyda chi yn eich aros
yn newyddion da i chi ei rannu
a'ch arwain chi yn y ffordd
sy'n arwain at fywyd tragwyddol.*

Cân neu Emyn (Gweler y rhestr o emynau addas)

Dyfynnir darnau o'r Ysgrythur o gyfieithiad beibl.net. Defnyddir y rhain gyda chaniatâd. Hawlfraint © 2012, Gobaith i Gymru, ar ran y Golygydd. Diogelir pob hawl.

Daw'r gweddill o'r dyfyniadau o'r Beibl Cymraeg Newydd (Argraffiad Diwygiedig) © Y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor 2004. Defnyddir gyda chaniatâd.

thirtyoneeight.org/SafeguardingSunday



©Thirtyone:eight for Safeguarding Sunday 2022
Charity No: 1004490 Scottish Charity No: SC040578